# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

# Y BIL IECHYD MEDDWL

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru o ran materion datganoledig, neu os yw ei ddarpariaethau yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru.

2. Cyflwynwyd y Bil Iechyd Meddwl ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 6 Tachwedd 2024. Mae'r Bil ar gael yn:
[HL]https://bills.parliament.uk/publications/56783/documents/5312

## Amcan(ion) polisi

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw moderneiddio'r ddeddfwriaeth iechyd meddwl i roi mwy o ddewis, ymreolaeth, hawliau a chymorth i gleifion; a sicrhau bod pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol cyfnod eu triniaeth. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys mesurau i wella gofal a chefnogaeth ar gyfer pobl sydd ag anabledd dysgu a phobl awtistig, gan leihau'r ddibyniaeth ar ofal mewn ysbytai.

## Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

5. Mae'n cynnwys nifer o ddiwygiadau i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (Deddf 1983). Yn gyffredinol, bwriedir i'r mesurau yn y Bil hwn gryfhau llais cleifion sy'n ddarostyngedig i Ddeddf 1983. Maent yn rhoi grym statudol ychwanegol i hawliau cleifion i fod yn rhan o'r broses o gynllunio ar gyfer eu gofal, ac i lywio dewisiadau ynghylch y driniaeth y maent yn ei chael. Bydd y diwygiadau yn cynyddu'r craffu ar gadwad er mwyn sicrhau mai dim ond pan fo ei angen, a chyhyd ag y bo ei angen, y caiff ei ddefnyddio. Mae'r Bil hefyd yn ceisio cyfyngu ar y defnydd o Ddeddf 1983 i gadw pobl sydd ag anabledd dysgu a phobl awtistig.

6. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau:

   a. sy'n gwneud diwygiadau i'r meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i berson gael ei gadw, ei drin neu ei wneud yn ddarostyngedig i Ddeddf 1983 fel arall ac yn darparu adolygiadau ac apelau cynharach o ran cadwadau a thriniaeth.

   b. sydd â'r nod o gryfhau llais cleifion gyda diwygiadau sy'n rhoi grym statudol i hawl claf i fod yn rhan o'r gwaith o gynllunio ei ofal, a chynyddu'r dewis ynghylch y driniaeth y mae'n ei chael.

c. sydd â'r nod o wella ac ehangu rolau a phwerau pobl sy'n cynrychioli cleifion sy'n cael eu cadw o dan Ddeddf 1983 drwy ganiatáu i gleifion enwebu'r person sy'n eu cynrychioli.

d. sy'n cyfyngu ar y cyfnod ar gyfer cadw pobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth o dan Ddeddf 1983 i 28 o ddiwrnodau lle nad oes cyflwr iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd, ond gan gadw'r ysbyty fel opsiwn dedfrydu o dan Ddeddf 1983 ar gyfer troseddwyr sydd â'r cyflyrau hyn a'r gallu i drosglwyddo cleifion sydd â'r cyflyrau hyn o'r carchar i'r ysbyty.

e. sy'n diwygio'r meini prawf ar gyfer defnyddio Gorchmynion Triniaeth Gymunedol ac yn gwella'r oruchwyliaeth broffesiynol sy'n ofynnol ar gyfer defnyddio Gorchmynion o'r fath.

f. sy'n dileu gorsafoedd heddlu a charchardai fel mannau diogel o dan Ddeddf 1983 er mwyn sicrhau bod pobl sy'n profi argyfwng iechyd meddwl neu sydd ag anghenion iechyd meddwl difrifol yn cael eu cefnogi mewn lleoliad priodol.

g. sy'n cyflwyno terfyn amser newydd o 28 o ddiwrnodau ar gyfer trosglwyddiadau o'r carchar i'r ysbyty ar gyfer carcharorion ag anghenion iechyd meddwl difrifol er mwyn cyflymu mynediad at ofal a thriniaeth arbenigol i gleifion mewnol.

h. sy'n cyflwyno math newydd o gadwad cymunedol o dan oruchwyliaeth ar gyfer cleifion sydd wedi eu heuogfarnu am droseddau sy'n barod i'w rhyddhau o'r ysbyty ond y mae angen parhau i'w hamddifadu o'u rhyddid yn y gymuned.

7. Mae fy swyddogion wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â swyddogion Llywodraeth y DU wrth i'r Bil gael ei ddrafftio. Rwyf wedi cyfarfod â'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ddiogelwch Cleifion, Iechyd Menywod ac Iechyd Meddwl i drafod y Bil ac er mwyn ymrwymo i barhau i weithio ar y cyd wrth i'r Bil fynd rhagddo.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

8. Yn fy marn i, mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â chymalau 1 i 3, 5 i 8, 10 i 19, 21 i 32, 34 i 37, 39 i 46, a 49 i 51, Atodlen 1 ac Atodlen 2:

<u>Cymalau 1 a 2 – egwyddorion i lywio penderfyniadau</u>

Mae cymal 1 yn diwygio adran 118 o Ddeddf 1983, i gynnwys rhestr o egwyddorion y mae'n *rhaid* eu cynnwys mewn cod ymarfer o dan adran 118(1) a rhestr o faterion i ymdrin â hwy mewn unrhyw god ymarfer o'r fath a lunnir gan Weinidogion Cymru. Gwneir diwygiadau technegol pellach gan gymal 1 gan gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod copi o'r cod ymarfer gerbron y Senedd. Pan fo'r Senedd yn pasio penderfyniad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cod neu unrhyw addasiad iddo gael ei dynnu'n ôl, rhaid i Weinidogion Cymru dynnu'r cod neu'r addasiad yn ôl a llunio cod ymarfer neu addasiad yn ei le.

Mae'r ddyletswydd o dan adran 118(2A) i gynnwys yr egwyddorion ac ymdrin â'r materion yn adran 118(2B) mewn cod ymarfer i'w hestyn i Weinidogion Cymru a rhoddir effaith i hyn gan y diwygiad technegol yng nghymal 2.

Cymal 3 ac Atodlen 1 - Cymhwyso Deddf Iechyd Meddwl 1983: awtistiaeth ac anabledd dysgu

Mae cymal 3 yn diwygio Deddf 1983 fel na ellir cadw pobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth i gael triniaeth orfodol o dan adran 3 o Ddeddf 1983 oni bai bod ganddynt "psychiatric disorder". Nid yw'r newidiadau hyn yn gymwys i gleifion Rhan 3 (hynny yw y cleifion hynny sy'n ddarostyngedig i Ran 3 o Ddeddf 1983).

Mewn perthynas â chleifion Rhan 3, mae paragraffau 7 i 10 o Atodlen 1 yn gwneud newidiadau i'r diffiniad o "relevant disorder" yn Rhan 3 o Ddeddf 1983 (sy'n cynnwys awtistiaeth ac anabledd dysgu sydd â chanlyniadau ymddygiadol difrifol) ac mae paragraffau 9 i 10 yn cymhwyso'r diffiniad newydd i remandau i'r ysbyty a gorchmynion ysbyty a gwarcheidiaeth.

Cymal 5 – Y seiliau dros gadw

Mae cymal 5 yn diwygio'r meini prawf ar gyfer cadw o dan adrannau 2, 3 a 5 o Ddeddf 1983 ac yn diwygio'r meini prawf ar gyfer adnewyddu cadwad o dan adran 20. Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud â chleifion sifil o dan Ddeddf 1983; ond mae is-adran (6) yn cael yr effaith o sicrhau y bydd y meini prawf risg diwygiedig yn gymwys pan fydd cadwad claf Rhan 3, sydd eisoes yn ddarostyngedig i orchmynion neu gyfarwyddydau, yn cael ei adnewyddu.

Cymal 6 – Y seiliau dros orchmynion triniaeth gymunedol

Mae cymal 6 yn diwygio'r meini prawf ar gyfer gwneud gorchymyn triniaeth gymunedol o dan adran 17A o Ddeddf 1983, ac ar gyfer adnewyddu gorchmynion triniaeth gymunedol o dan adran 20A, i gydweddu â'r meini prawf risg newydd ar gyfer cadw. Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud â'r adrannau sifil o Ddeddf 1983; ond mae is-adran (4) yn cael yr effaith o gymhwyso'r meini prawf diwygiedig ar gyfer gorchmynion triniaeth gymunedol i gleifion Rhan 3 sydd eisoes yn ddarostyngedig i orchmynion neu gyfarwyddydau. Yn ogystal, mae is-adran (5) yn cael yr effaith o gymhwyso'r meini prawf diwygiedig yn is-adran (3) i gleifion Rhan 3 sydd eisoes yn ddarostyngedig i orchymyn triniaeth gymunedol pan gânt eu hystyried ar gyfer adnewyddu'r gorchymyn triniaeth gymunedol hwnnw.

Cymal 7 – Y seiliau dros ryddhau gan dribiwnlys

Mae cymal 7 yn diwygio adrannau 72 a 73 o Ddeddf 1983 sy'n ymwneud â phwerau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl) a Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (gyda'i gilydd, y Tribiwnlys Iechyd Meddwl) i ryddhau cleifion. Mae'r newidiadau yng nghymal 7(2) yn cydweddu'r seiliau dros ryddhau claf gan y Tribiwnlys Iechyd Meddwl â'r seiliau diwygiedig dros gadw fel y'u darperir gan gymal 5. Rhaid i Dribiwlys Iechyd Meddwl ryddhau claf pan nad yw'r claf bellach yn bodloni'r meini prawf cadw diwygiedig sy'n berthnasol i'w gadwad. Bydd y meini prawf rhyddhau newydd yn berthnasol yn awtomatig i gleifion Rhan 3 anghyfyngedig, sy'n cael eu rhyddhau o dan

adran 72(1)(b), ac i gleifion cyfyngedig, sy'n cael eu rhyddhau o dan adran 73, yn rhinwedd cymal 7(3) a (4). Mae is-adran 7(4) yn cael yr effaith o sicrhau y bydd y darpariaethau hyn yn gymwys ar gyfer cleifion Rhan 3 sydd eisoes yn ddarostyngedig i orchmynion neu gyfarwyddydau, y tro nesaf y byddant yn dod gerbron y Tribiwnlys Iechyd Meddwl.

Cymal 8 – Triniaeth feddygol briodol: budd therapiwtig

Mae'r cymal hwn yn gwneud diwygiadau i'r ystyriaeth o driniaeth feddygol briodol o dan Ddeddf 1983, er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys gofyniad bod gan driniaeth o'r fath obaith rhesymol o “alleviating, or preventing the worsening of, a patient’s symptoms”.

Cymal 10 – Enwebu'r clinigydd cyfrifol

Mae cymal 10 yn gwneud dau ddiwygiad i adran 34, is-adran (1), (Dehongli Rhan 2) o Ddeddf 1983 sy'n cynnwys diffiniadau o dermau penodol a ddefnyddir o fewn Deddf 1983. Y diwygiadau yw ychwanegu term newydd sef “relevant hospital” (i olygu naill ai'r ysbyty y mae claf yn agored i gael ei gadw ynddo, neu, ar gyfer claf ar orchymyn triniaeth gymunedol, yr ysbyty sy'n gyfrifol amdano), ac estyn y diffiniad o “responsible clinician” (i bennu bod gan y clinigydd cyfrifol gyfrifoldeb cyffredinol am ofal claf fel ar hyn o bryd, ond gyda'r ddarpariaeth ychwanegol bod hyn oherwydd bod rheolwyr yr ysbyty perthnasol wedi enwebu'r clinigydd cyfrifol).

Cymal 11 – Gwneud penderfyniadau ynghylch triniaeth

Mae cymal 11 yn gwneud darpariaeth i ddiwygio Deddf 1983 drwy fewnosod adran 56A. Mae hyn yn cyflwyno dyletswydd ar y clinigydd sy'n gyfrifol am driniaeth y claf i ystyried materion penodol a chymryd nifer o gamau wrth benderfynu a ddylid rhoi triniaeth o dan Ran IV. Mae'r ‘rhestr wirio glinigol’ hon yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, ystyried dymuniadau a theimladau'r claf i'r graddau y gellir eu canfod yn rhesymol, cymryd camau rhesymol ymarferol i gynorthwyo ac annog y claf i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch y driniaeth, ymgynghori â'r bobl hynny sy'n agos at y claf, a nodi a gwerthuso unrhyw fathau o driniaeth feddygol sydd ar gael.

Cymal 12 – Penodi meddygon i roi ail farn

Mae cymal 12 yn gwneud darpariaeth i ddiwygio Deddf 1983 drwy fewnosod adran newydd 56B i egluro rôl yr awdurdod rheoleiddio (y Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr ac, mewn perthynas â Chymru, Gweinidogion Cymru), wrth benodi meddyg ail farn penodedig, y cyfeirir ato ar hyn o bryd yn Neddf 1983 fel ‘registered medical practitioner appointed for the purposes of this Part of the 1983 Act by the regulatory authority’.

Mae'r meddyg ail farn penodedig yn gweithredu'n annibynnol, ac o dan y Bil drafft bydd yn gyfrifol am asesu a oes budd therapiwtig i driniaeth orfodol y claf, er enghraifft, a bod y ddyletswydd newydd ar glinigwyr o dan adran 56A i ystyried sawl mater, gan gynnwys dymuniadau a dewisiadau'r claf yn y gorffennol ac ar hyn o bryd a dewisiadau eraill ar gyfer triniaeth, wedi'i chymhwyso.

Cymal 13 – Meddyginiaeth etc.: triniaeth sy'n gwrthdaro â phenderfyniad gan glaf neu ar ei ran

Mae cymal 13 yn gwneud darpariaeth i ddiwygio Deddf 1983 drwy fewnosod adran newydd 57A. Mae hyn yn cyflwyno mesurau diogelu newydd i gleifion sy'n gwrthod triniaeth naill ai â galluedd neu gymhwysedd ar y pryd, neu mewn penderfyniad dilys a chymwys a wnaed ymlaen llaw, neu pan fo triniaeth yn gwrthdaro â phenderfyniad a wnaed gan roddai neu ddirprwy neu'r Llys Gwarchod. Nid yw'r mesurau diogelu hyn ond yn berthnasol i driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddwl sy'n dod o fewn cwmpas adran 58.

Cymal 14 – Meddyginiaeth etc: triniaeth o dan amgylchiadau eraill

Mae cymal 14 yn gwneud darpariaeth i ddiwygio adran 58 o Ddeddf 1983 drwy fyrhau'r cyfnod o dri mis, y mae'n rhaid darparu ardystiad ar ei ôl, i ddau fis. Mae'r cyfnod amser newydd hwn yn berthnasol pan fo gan y claf alluedd neu gymhwysedd mewn perthynas â'r driniaeth a'r cydsyniadau; neu pan nad oes gan y claf alluedd/cymhwysedd mewn cysylltiad â'r driniaeth (ac nad oes gwrthdaro ag unrhyw benderfyniad dilys a chymwys ymlaen llaw, na phenderfyniad a wnaed gan roddai neu ddirprwy neu gan y Llys Gwarchod).

Cymal 15 – Therapi electrogynhyrfol etc

Mae cymal 15 yn gwneud darpariaeth i ddiwygio adran 58A o Ddeddf 1983 fel nad rôl y meddyg ail farn penodedig bellach yw ardystio nad yw'r penderfyniad i roi therapi electrogynhyrfol yn gwrthdaro ag unrhyw benderfyniad dilys a chymwys ymlaen llaw, neu benderfyniad gan atwrnai neu ddirprwy neu'r Llys Gwarchod. Yn lle hynny, bydd angen pennu hyn cyn yr atgyfeiriad at y meddyg ail farn penodedig, a rhaid i'r meddyg ail farn penodedig ardystio'r canlynol cyn y gellir rhoi triniaeth: nad oes gan y claf alluedd i gydsynio; bod y driniaeth yn briodol (yn unol â'r diffiniad newydd yng nghymal 7); a bod y penderfyniad i roi triniaeth wedi ei wneud yn unol ag adran 56A.

Mae'r diwygiadau'n symud y cyfrifoldeb am ddyfarnu a yw penderfyniad ymlaen llaw (neu benderfyniad a wnaed gan atwrnai neu ddirprwy neu'r Llys Gwarchod) yn gymwys o'r meddyg ail farn penodedig i'r clinigydd sy'n trin y claf.

Cymal 16 – Adolygiad o'r driniaeth

Mae cymal 16 yn gwneud darpariaeth i ehangu cwmpas adran 61 o Ddeddf 1983 fel ei bod hefyd yn gymwys i gleifion y canfyddir eu bod yn cydsynio i driniaeth sy'n dod o dan adran 58A ac adran 58, yn hytrach na dim ond cleifion nad ydynt yn cydsynio i driniaeth. Rhaid i'r clinygydd cymeradwy sy'n gyfrifol am y driniaeth roi adroddiad am y driniaeth a chyflwr y claf os yw'r awdurdod rheoleiddio yn gwneud hynny'n ofynnol. Yn ogystal, mae'r cymal hwn yn ehangu cwmpas y ddarpariaeth hon i gynnwys cyfnodau adrodd penodol ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty o dan adran 3. Ar gyfer cleifion sy'n cael triniaethau adran 58, rhaid i'r clinigydd cymeradwy roi adroddiad cyfatebol i'r awdurdod rheoleiddio pan fydd cadwad y claf yn cael ei adnewyddu. Mae gan yr awdurdod rheoleiddio y pŵer i ddirymu'r dystysgrif os yw'n cael ei darparu gan feddyg ail farn penodedig.

Cymal 17 – Triniaeth frys i leddfu dioddefaint

Mae cymal 17 yn gwneud darpariaeth i gael gwared ar y pŵer i roi triniaeth frys i gleifion sydd â'r galluedd neu'r cymhwysedd perthnasol ar y sail yr ystyrir bod hynny'n angenrheidiol ar unwaith er mwyn lleddfu dioddefaint difrifol gan y claf, fel y caniateir ar hyn o bryd o dan adran 62 o Ddeddf 1983. Yn ymarferol, mae'r newid hwn yn caniatáu i gleifion sydd â galluedd neu gymhwysedd ar y pryd benderfynu ar faint o ddioddefaint y maent yn fodlon ei dderbyn.

Cymal 18 – Therapi electrogynhyrfol brys etc

Mae cymal 18 yn mewnosod adran newydd 62ZA yn Neddf 1983, sy'n cyflwyno mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer cleifion sydd â galluedd/cymhwysedd sydd wedi gwrthod triniaethau adran 58A brys (naill ai ar y pryd neu mewn penderfyniad dilys a chymwys ymlaen llaw), neu pan fo'r driniaeth frys yn gwrthdaro â phenderfyniad dilys rhoddai neu ddirprwy, neu benderfyniad gan y Llys Gwarchod. Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i feddyg ail farn penodedig, cyn rhoi triniaeth sy'n gwrthdaro â gwrthodiad claf, ddyroddi tystysgrif sy'n cadarnhau (i) cymhwysedd y claf, (ii) y gwrthdaro â'i wrthodiad neu â phenderfyniad a wnaed gan roddai, dirprwy, neu'r Llys Gwarchod, a (iii) yn sicrhau bod penderfyniad y clinigydd yn cydweddu â phrotocolau sefydledig a meini prawf brys.

Mae cymal 18 hefyd yn mewnosod adran newydd 62ZB sy'n creu pwerau i wneud rheoliadau y caiff yr awdurdod cenedlaethol priodol eu harfer i ganiatáu i glinigydd cymeradwy ardystio therapi electrogynhyrfol brys o dan amgylchiadau penodol, gan osgoi'r angen am gymeradwyaeth meddyg ail farn penodedig mewn achosion eithriadol. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol priodol pan ddarperir y driniaeth yng Nghymru, ac felly mae'r cymal hwn yn rhoi pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru. Mae rheoliadau o dan adran 62ZB(1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Mae adran 62ZB(2) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i osod dyletswyddau drwy reoliadau ar: (a) rheolwyr ysbytai neu sefydliadau cofrestredig; (b) clinigwyr cymeradwy, neu (c) yr awdurdod rheoleiddiol, at ddiben sicrhau bod tystysgrif triniaeth y meddyg ail farn penodedig yn cael ei rhoi o fewn cyfnod amser penodedig.

Mae cymal 18 hefyd yn diwygio adran 118 o Ddeddf 1983 i fewnosod is-adran newydd 118(1)(d) sy'n diweddaru'r fframwaith cod ymarfer.

Yn ogystal, mae cymal 18 yn diwygio adran 119 o Ddeddf 1983 i ddarparu, pan fo'n ofynnol i feddyg ail farn penodedig gynnal cyfweliad â'r claf neu ei archwilio er mwyn penderfynu a ddylid ardystio rhoi therapi electrogynhyrfol brys, y caiff gynnal y swyddogaeth hon drwy gyswllt fideo neu sain byw, os yw hynny'n briodol.

Cymal 19 – Galluedd i gydsynio i driniaeth

Mae cymal 19 yn gwneud darpariaeth i gyflwyno diwygiadau i sut y mynegir galluedd neu gymhwysedd meddyliol claf i gydsynio i driniaeth neu wrthod triniaeth o dan Ddeddf 1983. Er nad oes disgwyl i'r diwygiadau hyn greu newid ymarferol i'r dull

clinigol o asesu galluedd neu gymhwysedd, mae'r newid hwn yn cadarnhau'r fframwaith cyfreithiol a rennir rhwng Deddf 1983 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae hefyd yn gwneud Rhan 4 yn gyson â Rhan 4A o Ddeddf 1983, sydd eisoes yn mabwysiadu'r derminoleg hon.

Cymal 21 – Ymgynghori o ran y clinigydd cymunedol

Mae cymal 21 yn gwneud darpariaeth i ddiwygio adran 17A o Ddeddf 1983 i'w gwneud yn ofynnol i'r clinigydd cymunedol sy'n gyfrifol am oruchwylio gofal y claf fel claf cymunedol fod yn rhan o benderfyniadau ynghylch defnyddio a gweithredu gorchymyn triniaeth gymunedol. Mae hyn yn cwmpasu'r penderfyniad i wneud person yn ddarostyngedig i orchymyn triniaeth gymunedol, i amrywio neu atal dros dro amodau a wneir o dan orchymyn triniaeth gymunedol, i alw claf sy'n ddarostyngedig i orchymyn triniaeth gymunedol yn ôl i'r ysbyty, i ddirymu gorchymyn triniaeth gymunedol ar ôl i glaf gael ei alw yn ôl yn y fath fodd, ac i ryddhau claf o orchymyn triniaeth gymunedol.

Mae cymal 21 yn cyflwyno gwahaniaeth newydd rhwng clinigydd cyfrifol claf sydd â chyfrifoldeb cyffredinol amdano gan gynnwys mewn ysbyty, a chlinigydd cymunedol, sydd â chyfrifoldeb am y claf yn y gymuned, ac mae'r cymal yn gosod dyletswyddau penodol ar yr olaf o'r rhain, pan nad y clinigydd cymunedol yw'r clinigydd cyfrifol.

Cymal 22 – Amodau gorchmynion triniaeth gymunedol

Mae cymal 22 yn gwneud darpariaethau sy’n canolbwyntio ar yr amodau a’r meini prawf ar gyfer gorchymyn triniaeth gymunedol. Cynigir dau ddiwygiad mewn perthynas â’r amodau y gallai fod yn ofynnol i berson sy’n ddarostyngedig i orchymyn triniaeth gymunedol eu dilyn. Mae is-adran (1) o’r cymal hwn yn dileu’r geiriau “or appropriate” o’r ymadrodd “necessary or appropriate” yn adran 17B(2) o Ddeddf 1983, er mwyn darparu y gwneir amodau dim ond pan ei bod wir yn angenrheidiol eu gwneud. Mae is-adran (2) o’r cymal hwn yn mewnosod adran 72(3B) yn Neddf 1983 ac yn darparu pŵer newydd i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru argymell i'r clinigydd cyfrifol ailystyried a oes angen amod gorchymyn triniaeth gymunedol penodol a hynny mewn achosion pan fo tribiwnlys iechyd meddwl wedi penderfynu peidio â rhyddhau claf o orchymyn triniaeth gymunedol.

Cymal 23 (ac Atodlen 2) – Person enwebedig

Mae cymal 23 yn cyflwyno rôl statudol newydd yn Neddf 1983, sef rôl y person enwebedig a fydd yn disodli'r rôl bresennol sef y berthynas agosaf. Y bwriad yw yn lle rôl y berthynas agosaf, y byddai'r claf yn gallu dewis y person enwebedig ei hun er mwyn ei gynrychioli ac arfer y swyddogaethau statudol perthnasol y mae’r Bil yn eu hestyn. Mae hyn yn ategu'r amcan polisi a’r egwyddor yn ymwneud â dewis ac ymreolaeth ym maes gofal iechyd meddwl.

Cymal 24 – Ceisiadau ynghylch derbyniadau neu warcheidiaeth – rôl y person enwebedig

Mae cymal 24 yn rhoi swyddogaethau newydd i berson enwebedig. Mae cymal 24(2) yn mewnosod cyfeiriadau at bersonau enwebedig yn adran 11 o Ddeddf 1983 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Weithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy ymgynghori

â'r person enwebedig cyn iddynt wneud cais am driniaeth neu warcheidiaeth (oni bai nad yw hynny'n rhesymol yn ymarferol neu y byddai'n achosi oedi afresymol).

Gall person enwebedig wrthwynebu'r cais am dderbyniad ar gyfer triniaeth neu'r cais am warcheidiaeth drwy roi gwybod i'r Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy neu wasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol. Mae adran 66 o Ddeddf 1983 i'w diwygio fel bod hawl y berthynas agosaf i wneud cais i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ar gyfer rhyddhau claf yn gymwys i bersonau enwebedig ac yn gymwys pan fo person enwebedig yn gwrthwynebu cadw claf neu pan gaiff cais am warcheidiaeth ei wrthod.

Mae cymal 24(4) yn gwneud darpariaeth o ran tribiwnlysoedd gan ganiatáu i berson enwebedig wneud cais i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru mewn amgylchiadau penodol.

Cymal 25 – Rhyddhau cleifion: rôl y person enwebedig

Mae cymal 25 yn darparu ar gyfer gwahanol ddiwygiadau er mwyn rhoi effaith i ddarpariaethau yn ymwneud â'r person enwebedig (er enghraifft, drwy roi'r geiriau "nominated person" yn lle "nearest relative" yn adran 25 o Ddeddf 1983). Mae cymal 25 hefyd yn diwygio ymhellach y terfyn amser presennol i berson enwebedig wneud gorchymyn i glaf gael ei ryddhau o chwe mis i dri mis er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i gyfnodau cadw yn y Bil.

Cymal 26 – Gorchmynion triniaeth gymunedol: rôl y person enwebedig

Mae cymal 26 yn sefydlu hawl newydd i ymgynghori â phersonau enwebedig cyn i orchymyn triniaeth gymunedol gael ei wneud, ac mae'n darparu pan fo person enwebedig yn gwrthwynebu bod gorchymyn triniaeth gymunedol yn cael ei wneud, na chaniateir gwneud y gorchymyn oni bai bod y clinigydd cyfrifol yn ardystio yn ysgrifenedig ei fod o'r farn y dylid rhyddhau'r claf, ac os caiff ei ryddhau heb orchymyn triniaeth gymunedol mewn grym, y byddai'r claf yn debygol o ymddwyn mewn modd sy'n beryglus i'w hun neu i eraill.

Cymal 27 – Trosglwyddo cleifion: rôl y person enwebedig

Mae cymal 27 yn sefydlu hawl newydd i ymgynghori â phersonau enwebedig ynghylch trosglwyddo cleifion rhwng ysbytai oni bai nad yw hynny'n rhesymol yn ymarferol neu y byddai'n achosi oedi afresymol. Mae cymal 27 yn diwygio adran 19 o Ddeddf 1983 i roi effaith i'r diben hwn. Mae adran 19 yn gymwys i gleifion Rhan 2 a chleifion Rhan 3 (yn rhinwedd Rhan 2, paragraff 2 o Atodlen1 i Ddeddf 1983 (fel y'i haddaswyd gan baragraff 5 o'r Atodlen honno)).

Cymal 28 – Cyfnodau cadw

Mae cymal 28 yn lleihau'r cyfnod y gellir cadw claf ar gyfer rhoi triniaeth iddo, sy'n golygu y bydd cyfnod cadw cychwynnol claf yn dod i ben yn gynt, ac os bydd angen estyn y cyfnod ymhellach, rhaid ei adolygu a'i adnewyddu'n amlach. Mae'r newid hwn yn unol â'r amcan polisi a'r egwyddorion yn ymwneud â'r cyfyngiad lleiaf a budd therapiwtig.

Cymal 29 – Cyfnodau ar gyfer ceisiadau tribiwnlys

Mae cymal 29(1) yn diwygio’r cyfnodau pan gaiff cleifion sifil wneud cais i’r tribiwnlys iechyd meddwl, gan roi mwy o amser a chyfleoedd i gleifion wneud ceisiadau. Mae cymal 29(2) hefyd yn ehangu’r grŵp o gleifion y gwneir atgyfeiriadau awtomatig yn eu cylch drwy gyflwyno hawliau o ran gwneud ceisiadau ar gyfer cleifion Rhan 3 dan gyfyngiadau a gaiff eu rhyddhau yn ddarostyngedig i amodau amddifadu o ryddid. Diben y ddarpariaeth hon yw diwygio’r cyfnod y caiff y rhai sy’n ddarostyngedig i gyfnod cadw ar gyfer asesu a chael triniaeth wneud cais i dribiwnlys.

<u>Cymal 30 – Atgyfeiriadau at dribiwnlys</u>

Mae cymal 30 yn diwygio Deddf 1983 mewn perthynas ag atgyfeiriadau awtomatig gan reolwyr ysbytai ar gyfer cleifion Rhan 2. Mae’n mewnosod diffiniad o’r “relevant period” sef y cyfnod pan gaiff atgyfeiriad ei wneud ac mae'n darparu y dylai atgyfeiriadau awtomatig ddigwydd yn syth ar ôl i'r cyfnod perthnasol ddod i ben, oni bai bod y claf wedi gwneud cais ei hun yn ystod y cyfnod hwnnw gan olygu y bydd ei achos wedi'i ystyried gan y tribiwnlys eisoes. Mae’n lleihau’r cyfnod atgyfeirio awtomatig yn adran 68(6) o Ddeddf 1983 o 3 blynedd i 12 mis, gan sicrhau na ellir cadw cleifion am gyfnod hirach na 12 mis heb fanteision adolygiad gan y tribiwnlys.

<u>Cymal 31 – Atgyfeiriadau at dribiwnlys o ran cleifion sy’n ymwneud ag achosion troseddol etc</u>

Mae cymal 31 yn diwygio’r cyfnodau atgyfeirio awtomatig ar gyfer troseddwyr sydd ag anhwylder meddwl sy’n destun cyfyngiadau arbennig (cleifion Rhan 3 dan gyfyngiadau). Mae’n ei gwneud yn ofynnol i’r Ysgrifennydd Gwladol atgyfeirio pob claf Rhan 3 dan gyfyngiadau sy’n cael ei gadw mewn ysbyty at y tribiwnlys pan fo cyfnod o 12 mis wedi pasio, ac nad oes atgyfeiriad wedi’i wneud eisoes at y tribiwnlys. Mae hyn yn ategu'r amcan polisi o ragor o fesurau diogelu a chraffu barnwrol annibynnol gan y tribiwnlys o ran cyfnodau cadw a’r egwyddor yn ymwneud â'r cyfyngiad lleiaf.

<u>Cymal 32 – Y broses rhyddhau</u>

Mae cymal 32 yn cyflwyno ’gwiriad’ statudol newydd ychwanegol pan ystyrir rhyddhau claf o'r trefniant cadw. Cyn gwneud gorchymyn i ryddhau, rhaid i’r clinigydd cyfrifol ymgynghori â pherson sydd wedi ymwneud yn broffesiynol â thriniaeth feddygol y claf, ac sy’n perthyn i broffesiwn heblaw yr un y mae’r clinigydd cyfrifol yn perthyn iddo. Nod hyn yw helpu i osgoi rhyddhau cleifion yn amhriodol lle byddai’r claf neu’r cyhoedd mewn perygl yn sgil hynny, yn ogystal â ffurfioli arferion gorau. Mae’r ddyletswydd arfaethedig yn ymwneud ag ymgynghori, felly mae’n parhau i fod yn agored i’r clinigydd cyfrifol ddal ati i ryddhau claf hyd yn oed os yw’r farn ychwanegol yn erbyn hynny, ar yr amod bod y clinigydd cyfrifol wedi ystyried y farn honno.

<u>Cymal 34 – Trosglwyddo unigolion o’r carchar i’r ysbyty: amodau</u>

Mae cymal 34 yn diwygio geiriad Deddf 1983 i egluro y dylid trosglwyddo person sy’n bwrw dedfryd o garchar i’r ysbyty os gellir rhoi triniaeth feddygol briodol ar gyfer yr anhwylder meddwl perthnasol y mae’r person yn dioddef ohono.

<u>Cymal 35 – Trosglwyddo unigolion o’r carchar i’r ysbyty: terfynau amser</u>

Mae cymal 35 yn cyflwyno terfyn amser statudol o 28 o ddiwrnodau pan fo rhaid trosglwyddo unigolion sydd ag anghenion iechyd meddwl difrifol o’r carchar i ysbyty i gael triniaeth o dan Ddeddf 1983. Mae’r ddarpariaeth hon yn ategu'r egwyddor gyffredinol yn ymwneud â'r cyfyngiad lleiaf, gan leihau’r uchafswm o amser y gallai claf yn y carchar orfod aros cyn cael triniaeth cleifion mewnol.

Cymal 36 – Cyfarwyddydau trosglwyddo unigolion sy’n cael eu cadw mewn llety cadw ieuenctid

Yn unol ag adran 48 o Ddeddf 1983, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i wneud cyfarwyddyd trosglwyddo sy’n caniatáu i unigolion ar remánd mewn carchar neu ganolfan remánd neu sydd ar remánd yn y ddalfa gan lys ynadon, a charcharorion sifil a mewnfudo gael eu trosglwyddo i ysbyty os ydynt yn dioddef o anhwylder meddwl sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael gofal cleifion mewnol. Ers 2012, nid yw canolfannau remánd wedi'u defnyddio yn y system cyfiawnder troseddol, ac yn hytrach, mae plant wedi'u rhoi ar remánd mewn llety cadw ieuenctid. Yn sgil hynny, pan fydd Llys y Goron yn rhoi plant ar remánd mewn llety cadw ieuenctid, nid oes darpariaeth ar hyn o bryd i’r Ysgrifennydd Gwladol wneud cyfarwyddyd trosglwyddo o dan adran 48 o Ddeddf 1983. Mae cymal 36 yn unioni hyn.

Cymal 37 – Mân ddiwygiad

Mae cymal 37 yn gwneud mân ddiwygiad technegol i baragraff 9(b) o Ran 1 o Atodlen 1, sy’n addasu cymhwyso adran 66 ar gyfer cleifion Rhan 3 heb gyfyngiadau. Effaith y diwygiad yw egluro bod yr adran 66(2)(d) gyfan wedi'i hepgor o ran cleifion Rhan 3 heb gyfyngiadau.

Cymal 39 – Gwybodaeth am gwynion ar gyfer cleifion dan gadwad

O ran cleifion dan gadwad, mae cymal 39 yn diwygio adran 132 o Ddeddf 1983 er mwyn gosod dyletswydd statudol ar reolwyr ysbytai neu sefydliadau cofrestredig i sicrhau bod cleifion yn deall gweithdrefnau cwyno o ran mathau penodol o gwynion ac yn darparu amserlenni ar gyfer pryd y caiff y ddyletswydd honno ei sbarduno mewn perthynas â gwahanol fathau o gleifion, gan gynnwys cleifion sifil a chleifion dan gyfyngiadau.

Cymal 40 – Gwybodaeth am gwynion ar gyfer cleifion yn y gymuned

O ran cleifion yn y gymuned, mae cymal 40 yn diwygio adran 132A o Ddeddf 1983 er mwyn gosod dyletswydd statudol ar reolwyr yr ysbyty cyfrifol i sicrhau bod cleifion yn deall gweithdrefnau cwyno o ran mathau penodol o gwynion ac yn darparu amserlenni ar gyfer pryd y caiff y ddyletswydd honno ei sbarduno.

Cymal 41 – Gwybodaeth ar gyfer cleifion a ryddheir yn amodol

Mae cymal 41 yn mewnosod adran 132B yn Neddf 1983 er mwyn gosod dyletswydd statudol ar reolwyr ysbytai neu sefydliadau cofrestredig o ran rhoi gwybodaeth i gleifion dan gyfyngiadau a ryddheir yn amodol.

Mae’r ddyletswydd hon yn cynnwys gofynion tebyg i’r hyn a ddarperir ar hyn o bryd mewn perthynas â chleifion dan gadwad o dan adran 132 o Ddeddf 1983, a chleifion yn y gymuned o dan adran 132A, o ran cymryd camau i sicrhau bod y claf yn deall

telerau'r rhyddhau, sut y mae darpariaethau Deddf 1983 yn gymwys iddynt a'u hawl i wneud cais i dribiwnlys.

Yn ogystal, yn yr un modd â'r diwygiadau i adrannau 132 a 132A o Ddeddf 1983 a amlinellir yng nghymalau 39 a 40, mae cymal 41 hefyd yn gosod dyletswydd ar reolwyr ysbytai neu sefydliadau cofrestredig i roi gwybodaeth am weithdrefnau cwyno i gleifion dan gyfyngiadau a ryddheir yn amodol er mwyn sicrhau bod cleifion yn deall gweithdrefnau cwyno o ran mathau penodol o gwynion. Mae hefyd yn darparu y dylid darparu'r wybodaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Yn ogystal, rhaid rhoi gwybodaeth i berson enwebedig y claf, oni bai y gofynnir fel arall.

Cymal 42 – Dogfennau dewisiadau ymlaen llaw

Mae cymal 42 yn mewnosod adrannau 130M (dogfennau dewisiadau ymlaen llaw: Lloegr) a 130N (dogfennau dewisiadau ymlaen llaw: Cymru) yn Neddf 1983. Bydd yr adrannau newydd hyn yn gosod dyletswydd ar GIG Lloegr a Byrddau Gofal Integredig yn Lloegr, a Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru, i wneud trefniadau sy'n briodol yn eu barn hwy ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth ar gael am ddogfennau dewisiadau ymlaen llaw yn ogystal â helpu'r bobl hynny sy'n briodol yn eu barn hwy i greu dogfennau dewisiadau ymlaen llaw ar eu cyfer.

Nod y cymal yw gwella dewis ac ymreolaeth cleifion. Mae cyflwyno dogfennau dewisiadau ymlaen llaw statudol yn rhoi cyfle i berson sydd â salwch meddwl difrifol nodi ei ddymuniadau, ei deimladau, ei gredoau a'i werthoedd mewn dogfen y gellir ei defnyddio i lywio penderfyniadau os, yn y dyfodol, nad oes ganddo'r galluedd neu nad yw'n ddigon da i fynegi'r pethau hynny ei hun.

Cymal 43 – Pŵer y tribiwnlys i argymell ôl-ofal

Mae cymal 43 yn gwneud darpariaeth i estyn pŵer y Tribiwnlys Iechyd Meddwl (sy'n cynnwys Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru) i wneud argymhellion. Pan na fydd y Tribiwnlys Iechyd Meddwl yn cyfarwyddo rhyddhau claf, byddai'n gallu argymell bod y cyrff ôl-ofal cyfrifol yn gwneud cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaethau ôl-ofal i'r claf.

Cymal 44 – Gwasanaethau ôl-ofal

Mae cymal 44 yn gwneud darpariaeth i ddiwygio adran 117 o Ddeddf 1983. Mae adran 117 yn gosod dyletswydd ar y GIG a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i ddarparu ôl-ofal i gleifion dan gadwad yn yr ysbyty am driniaeth o dan adrannau 3, 37, 45A, 47 neu 48 o Ddeddf 1983, sydd wedyn yn peidio â bod dan gadwad ac yn gadael yr ysbyty.

Mae is-adran (2) o'r cymal hwn yn gymwys i benderfyniadau a wneir gan fwrdd gofal integredig neu fwrdd iechyd lleol a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i ddod ag ôl-ofal adran 117 i ben. Mae'r is-adran hon yn darparu y bydd ôl-ofal adran 117 yn parhau hyd nes bod y bwrdd gofal integredig neu'r bwrdd iechyd lleol a gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol yn rhoi rhybudd ysgrifenedig ar y cyd i'r person eu bod wedi'u bodloni nad oes angen gwasanaethau o'r fath arno mwyach.

Mae is-adran (3) yn cymhwyso’r rheolau tybiedig yn unol â deddfwriaeth gofal cymdeithasol i bennu preswylfa arferol er mwyn nodi pa awdurdod lleol sy’n gyfrifol am drefnu ôl-ofal adran 117 i glaf unigol.

Cymal 45 – Pwerau’r tribiwnlys mewn achosion gwarcheidiaeth: baich profi

Mae cymal 45 yn diwygio adran 72(4) o Ddeddf 1983 i roi'r baich profi i’r awdurdod lleol sy’n gyfrifol am warcheidiaeth yn hytrach nag i'r claf. Mae’n darparu y gall y tribiwnlys gyfarwyddo rhyddhau os nad yw wedi'i fodloni bod claf sy’n destun gwarcheidiaeth yn dioddef o anhwylder meddwl, neu ei bod yn angenrheidiol i'r claf barhau o dan warcheidiaeth er budd ei les ei hun neu er mwyn diogelu eraill.

Cymal 46 – Dileu gorsafoedd heddlu a charchardai o'r rhestr o fannau diogel

Mae cymal 46 yn dileu gorsafoedd heddlu a charchardai fel mannau diogel ar gyfer cleifion Rhan 3.

Mae cymal 41(3) yn egluro nad yw’r newidiadau hyn yn gymwys i’r rhai sydd eisoes dan gadwad mewn gorsaf heddlu neu garchar pan ddaw y newidiadau i rym.

Cymal 49 – Gweithdrefn ar gyfer rheoliadau penodol a wneir yn rhinwedd adrannau 18 a 35

Mae cymal 49 yn diwygio adran 143(2) o Ddeddf 1983 i wneud darpariaeth ar gyfer y weithdrefn ynghylch rheoliadau penodol, ac mae'n ychwanegu is-adran (3ZA) newydd ar ôl is-adran (3), ac is-adran (3BA) newydd ar ôl is-adran (3B) er mwyn nodi i ba reoliadau y mae'r weithdrefn gadarnhaol yn gymwys.

Mae’r cymal hwn yn darparu y bydd y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys o ran rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 62ZB(1) newydd, fel y’i mewnosodir gan gymal 18 o’r Bil.

Cymal 50 – Diogelu data

Mae cymal 50 yn egluro nad yw dyletswydd neu bŵer i brosesu gwybodaeth a osodir neu a roddir gan Ddeddf 1983 (fel y’i diwygir gan y Bil) yn ei gwneud yn ofynnol, nac yn awdurdodi, prosesu gwybodaeth a fyddai’n mynd yn groes i ddeddfwriaeth diogelu data.

Cymal 51 – Y pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol

Mae cymal 51 yn darparu i’r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ganlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys Deddfau Senedd Cymru. Nid oes pwerau cyfatebol ar gyfer Gweinidogion Cymru ac nid oes darpariaeth gydsynio ychwaith ar gyfer Gweinidogion Cymru o ran arfer y pŵer hwn ar faterion datganoledig yng Nghymru. Mae'r mater hwn wedi'i drafod â Llywodraeth y DU gan ofyn, o leiaf, am bwerau cyfatebol ar gyfer Gweinidogion Cymru.

**Barn Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am gydsyniad**

9. Mae Llywodraeth y DU o’r farn bod cydsyniad yn ofynnol ar gyfer cymalau 1 i 3, 5 i 8, 10 i 19, 21 i 30, 32, 35, 39 i 40, 42 i 46, 49, Atodlen 1 ac Atodlen 2.

10. Fel y nodir ym mharagraff 6, uchod, rwyf o’r farn bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â chymalau 1 i 3, 5 i 8, 10 i 19, 21 i 32, 34 i 37, 39 i 46, a 49 i 51, Atodlen 1 ac Atodlen 2.

11. Mae gwahaniaeth barn rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am gydsyniad ar gyfer cymalau 31, 34, 36, 37, 41, 50, a 51. Fodd bynnag, yn fy marn i, mae'r cymalau hyn yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy’n rhoi sylw i fater datganoledig sef iechyd y cyhoedd. O ganlyniad, yn unol â Rheol Sefydlog 29, mae’n ofynnol cael cydsyniad y Senedd.

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Iechyd Meddwl**

12. Rwy'n cefnogi'r diwygiadau hyn a fydd yn moderneiddio’r ddeddfwriaeth iechyd meddwl i roi mwy o ddewis, ymreolaeth, hawliau a chymorth gwell i gleifion, yn ogystal â sicrhau bod pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol cyfnod eu triniaeth. Mae’r Bil hefyd yn cynnwys mesurau i wella gofal a chymorth i bobl sydd ag anabledd dysgu a phobl awtistig, gan leihau’r ddibyniaeth ar ofal mewn ysbytai.

13. Ceir llawer iawn o ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir ar y ddwy ochr i’r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Byddai peidio â gwneud darpariaethau yn y Bil hwn yn creu risg o fwy o wahaniaethau rhwng y gwasanaethau sydd ar gael yn y ddwy wlad.

14. At hynny, mae’r cyfnodau cadw a’r hawliau i wneud cais i’r tribiwnlys yn fesurau diogelu allweddol o ran amddiffyn hawliau unigolion sy’n ddarostyngedig i Ddeddf 1983. Rwyf felly am achub ar y cyfle hwn i roi'r newidiadau hynny ar waith yma yng Nghymru yn unol â dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran gwella hawliau unigolion yng Nghymru.

15. Er bod y Bil hwn yn rhoi sylw i faterion datganoledig, mae hefyd yn gwneud darpariaeth o ran materion a gedwir yn ôl. Rwyf felly yn ystyried bod deddfu drwy Fil gan Lywodraeth y DU yn cynnig y dull gweithredu mwyaf cydlynol ar gyfer y darpariaethau a gyflwynir yn y ddeddfwriaeth hon.

**Goblygiadau ariannol**

16. Mae’r asesiad effaith a osodwyd ar y cyd â'r Bil yn cynnwys costau i Gymru a amcangyfrifwyd drwy gymhwyso'r costau cynnydd ar gyfer Lloegr. Mae costau ac arbedion costau a amcangyfrifwyd ar gyfer Lloegr wedi'u codi, gydag effeithiau yn dibynnu ar y prosesau y mae’r diwygiadau yn gysylltiedig â hwy.

17. Amcangyfrifir bod cyfanswm y costau (Cymru a Lloegr) ar gyfer y cyfnod arfarnu 20 mlynedd o hyd yn £5.7 biliwn. Bydd y gwaith gweithredu yn cael ei gyflwyno’n

raddol ac ni rennir y costau yn gyfartal felly dros y cyfnod o 20 mlynedd. Yn yr asesiad effaith, amcangyfrifir bod cyfanswm y costau i Gymru dros y cyfnod o 20 mlynedd yn £425 miliwn ar draws y sectorau iechyd, tai a gofal cymdeithasol.

18. Pe bai Senedd Cymru yn cydsynio i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, byddai hyn ar sail cyllid canlyniadol gan Lywodraeth y DU i gynnal y gwaith gweithredu fel yr amlinellir yn yr asesiad effaith a osodwyd gerbron Senedd y DU.

**Casgliadau**

19. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn mewn Bil gan Lywodraeth y DU gan y byddai hyn, yn unol ân hymrwymiad i wella hawliau unigolion yng Nghymru, yn sicrhau system gydlynol o hawliau ledled Cymru a Lloegr ac yn ategu ein hamcanion polisi o ran strategaethau iechyd meddwl newydd.

20. Rwyf felly yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad.

**Sarah Murphy AS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**20 Tachwedd 2024**